

Tasg 1

Morlyn Llanw Bae Abertawe

1. Llenwch y grid isod. Sawl un allwch chi ei lenwi heb ddefnyddio geiriadur?

CYMRAEG	DISGRIFIAD
adroddiad	
argymell	
cymeradwyo	
gwrthwynebwyr	
ymarferoldeb	
rhwydwaith	
anghenion	
arloesol	
lliniaru'r tir	

2. Mewn grŵp, ysgrifennwch y geiriau sydd yn y grid ar dameidiau bach o bapurau, ar wahân i'w gilydd, a'u rhoi mewn rhyw fath o het neu sach. Cymysgwch hwy ac yna heriwch eich gilydd i dynnu un allan a'i ddefnyddio mewn brawddeg. Rhewch bwynt am bob gair yn y frawddeg i'ch annog i ysgrifennu brawddegau llawn, ystyrlon. Gallwch addasu'r her gan amseru eich gilydd i weld pa mor gyflym y gallwch chi ysgrifennu brawddeg lwyddiannus.

3. Lluniwch gwis 'Darllen a Deall'. Ysgrifennwch 10 cwestiwn sydd â'u hatebion yn yr erthygl. Yna, cyfnewidiwch eich cwestiynau gyda rhywun arall gan herio eich gilydd i ateb y cwis. Marciwch a chymharwch eich canlyniadau.

4. Gan ddefnyddio tudalen Wikipedia prosiect Morlyn Llanw Bae Abertawe; https://cy.wikipedia.org/wiki/Morlyn_Llanw_Abertawe

atebwch y 5 cwestiwn yma:

1. Faint o drydan y mae disgwyl i'r prosiect greu pan fydd yn rhedeg? Rhewch ateb llawn, gan nodi faint o gartrefi y bydd yn cyflenwi ac am ba mor hir.
2. Pryd cafodd y prosiect ganiatâd cynllunio gan Lywodraeth y DU?
3. Sawl tyrbein fydd yn y cynllun?
4. Faint yw'r buddsoddiad y mae disgwyl i'r prosiect ei gyfrannu i'r economi leol?
5. Sawl swydd y mae nhw'n ei hamcangyfrif fydd yn bodoli pan fydd y prosiect yn cynhyrchu trydan?

Gan ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych chi wedi ei chasglu ewch ati i greu pamffled gwybodaeth i hysbysebu'r prosiect.